| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Isgontractwyr<br>(Subcontractor Policy) |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr<br>Students |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | [Cam 1 Asesu Effaith - Polisi Isgontractwyr] |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

<table>
<tr><td>Perchennog y Ddogfen:<br>Document Owner:</td><td colspan="3">Is-bennaeth Dysgu yn y Gwaith ac Ymgysylltu â Chyflogwyr</td></tr>
<tr><td>Ymgynghoriad/<br>Consultation:</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td rowspan="6">Dyddiad Cymeradwyo /<br>Date Approved</td><td colspan="2">Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant /<br>Communications & Culture Committee:</td><td>17/01/24</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Pwyllgorau'r Bwrdd /<br>Board Committees:</td><td>Pwyllgor Archwilio a Risg /<br>Audit & Risk Committee:</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau /<br>Curriculum & Standards Committee</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant /<br>Finance, People & Culture Committee:</td><td>-</td></tr>
<tr><td colspan="2">Corff Llywodraethu / Governing Body:</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:<br>Review Date:</td><td colspan="3">17/01/27</td></tr>
</table>

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

## Tabl Cynnwys


1. **Cyflwyniad**
2. **Y Broses Contractio**
3. **Sicrhau Ansawdd**
4. **Hyfforddi a Datblygu**
5. **Rheoli Perfformiad**
6. **Cynllunio Wrth Gefn**
7. **Ffioedd Rheoli**
8. **Adborth Dysgwyr a Chyflogwyr**
9. **Adolygiad**

## Polisi Is-gontractwyr

### 1. Cyflwyniad

1.1. Bwriad y ddogfen hon yw diffinio ar ba sail y bydd unrhyw drefniadau isgontractio yn cael eu rheoli.

1.2. Mae Coleg Cambria yn cydweithio â Phartneriaid Darparu i sicrhau bod anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn cael eu diwallu ac er mwyn cynnig ystod ehangach o ddarpariaeth hyfforddi a gwella ansawdd. Mae ymrwymiad y Coleg i fodel darparu sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr ac yn rhoi sylw i ansawdd profiadau dysgwyr unigol yn ofyniad sylfaenol.

1.3. Cânt eu dewis yn seiliedig ar:

1.3.1. Fanteision strategol wedi'u nodi'n glir yn ôl trefniant yr isgontract.

1.3.2. Ethos a rennir ac ymrwymiad i ddarparu safonau rhagorol o ddysgu ac addysgu, cefnogaeth ac ansawdd.

1.3.3. Bod yn arloesol ac ychwanegu gwerth i ddarparu profiad rhagorol i ddysgwyr.

1.3.4. Cael cyfraddau uchel a chyson o fyfyrwyr yn llwyddo.

1.3.5. Caniatáu myfyrwyr i gyrchu ystod ehangach o hyfforddiant gan fanteisio ar gyfleoedd cynyddol i symud yn eu blaenau.

1.3.6. Bod y ddarpariaeth yn ategu, yn hytrach na disodli darpariaeth y Coleg.

1.3.7. Partneriaid sydd wedi ymrwymo i ddatblygiad staff.

1.3.8. Partneriaid sydd â dealltwriaeth amlwg o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer dysgu a datblygu.

### 2. Y Broses Contractio

2.1. Caiff contract ysgrifenedig ei gwblhau ar gyfer pob un o'r Partneriaid Darparu sy'n nodi'n glir delerau'r trefniant isgontractio ac sy'n cynnwys holl ofynion y Fanyleb Rhaglen berthnasol.

2.2. Caiff asesiad risg ei gynnal wrth ddewis Partner Darparu a bydd y Coleg yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar gyfer pob un Partner Darparu. Bydd gofyn i ddarpar Bartneriaid Darparu ddarparu gwybodaeth a gwaith papur yn unol â chais y Coleg a rhoi tystiolaeth i gefnogi eu cais. Bydd y broses diwydrwydd dyladwy yn cynnwys gwerthusiad o'r canlynol:

2.2.1. Statws cyllidol a chyfreithiol;

2.2.2. Ansawdd, profiadau dysgwyr a chynllunio;

2.2.3. Iechyd a Diogelwch a diogelu (gan gynnwys Prevent);

2.2.4. Ymweliad i fonitro'r partner;

2.2.5. Manylion staff (yn cynnwys rhifau DBS, rhifau cofrestru'r CGA ac ati);

2.2.6. Cydymffurfiad data;

2.2.7. Cofnodion dadansoddi risg;

2.2.8. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

2.3. Caiff yr ymarfer diwydrwydd dyladwy ei chynnal ar y cyd gan yr adran Gyllid, Ansawdd a'r Is-bennaeth sy'n gyfrifol am y maes darpariaeth. Os bydd yr asesiad diwydrwydd dyladwy yn llwyddiannus, caiff y cais i gofrestru fel Partner Darparu ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Gweithredol ar gyfer ei gymeradwyo a'r Uwch Dîm Rheoli er gwybodaeth.

2.4. Bydd rheolaeth Partneriaid Darparu wedi ei seilio ar yr egwyddor o gymhwyso risg. Caiff asesiad risg ei gynnal i bob Partner Darparu mewn perthynas â'r safonau perfformio sydd yn y fframwaith ansawdd. Bydd gân bob Partner Darparu radd sy'n dynodi lefel o risg. Y radd hon fydd yn pennu amlder a chwmpas yr archwiliadau ansawdd a gynhelir gan y Coleg.

2.5. Bydd y Coleg bob amser yn ymgymryd â gweithgareddau caffael mewn modd teg a thryloyw fel rhan o'r broses isgontractio gan ddangos gwerth am arian. Caiff gwerthoedd

Cytundeb Blynyddol, perfformiad a data eu hadrodd i'r Uwch Dîm Rheoli a'r grŵp ansawdd sy'n berthnasol i'r maes darpariaeth.

2.6. Yr Is-bennaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr a Dysgu yn y Gwaith fydd yn ymdrin ag unrhyw ymholiadau cychwynnol ynghylch isgontractio. Gellir gwneud ymholiadau cychwynnol Dysgu Cymraeg / Cymraeg Gwaith trwy'r Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a'r Gymraeg.

## 3. Sicrhau Ansawdd

3.1. Bydd gofyn i bob Partner Darparu ymgysylltu'n llwyr â'r Coleg er mwyn sicrhau cysondeb mewn profiadau dysgu dysgwyr. Mae canllawiau clir ar gyfer cynnwys ac integreiddio Partneriaid Darparu ym mhroses ansawdd a chynllunio'r Coleg.

3.2. Bydd y broses yn cael ei arwain gan yr adran Ansawdd.

3.3. Mae Adroddiad Hunanasesu'r Coleg a'r Cynllun Gwella Ansawdd yn cynnwys adrannau am y ddarpariaeth isgontractio y mae'r Partneriaid Darparu yn cyfrannu atynt. Rhaid i bob Partner Darparu sydd â chontractau gweithredol gymryd rhan mewn gweithgareddau Adroddiad Hunan Asesu a Chynllun Gwella'n Barhaus.

3.4. Rhaid i bob Partner Darparu gymryd rhan mewn gweithgareddau safoni gyda'r Coleg lle bo'n briodol er mwyn sicrhau ansawdd mewnol cyson. Bydd monitro sicrhau ansawdd yn cymryd lle ar adegau a nodir yn y cytundeb lefel gwasanaeth er mwyn sicrhau rhagoriaeth gyson ym mhrofiadau'r dysgwyr.

3.5. Bydd Partneriaid Darparu yn cael eu cynnwys ym mhrosesau sicrhau ansawdd mewnol y Coleg ac yn cyfrannu at:

- 3.5.1. Adolygiadau diogelu dysgwyr;
- 3.5.2. Adolygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth dysgwyr;
- 3.5.3. Gwiriadau sicrhau ansawdd rheolaidd;
- 3.5.4. Ymweliadau archwilio byr-rybudd;
- 3.5.5. Arsylwi ac adolygiad gan gymheiriaid o ddysgu ac addysgu;
- 3.5.6. Sicrhau ansawdd mewnol/Gweithgaredd troeon dysgu;
- 3.5.7. Holiaduron boddhad dysgwyr a chyflogwyr;
- 3.5.8. Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP);
- 3.5.9. Adolygiadau cydymffurfio â'r Gymraeg.

3.6. Bydd Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau'r Corff Llywodraethu yn monitro perfformiad y Partneriaid Darparu fel rhan o'u cylch gwaith craffu ar holl ddarpariaeth ansawdd y Coleg.

## 4. Hyfforddi a Datblygu

4.1. Mae disgwyl i Bartneriaid Darparu gynnig DPP i staff sydd yn ymwneud â darparu'r rhaglenni dysgu yn ogystal â bod yn rhan o weithgareddau gofynnol y Coleg. Caiff cynllun hyfforddi a datblygu blynyddol y Coleg, sydd wedi ei seilio ar anghenion hyfforddi adnabyddedig, ei rannu gyda Phartneriaid Darparu er mwyn ehangu cyfleoedd DPP.

4.2. Bydd sesiynau hyfforddi mewnol rheolaidd yn cael eu hamserlennu a'u rhannu â'r Partneriaid Darparu er mwyn sicrhau safoni, cydymffurfiaeth a defnydd effeithiol o dechnoleg a dogfennaeth. Bydd gweithgareddau DPP yn cael eu cynnal ar y cyd er mwyn galluogi'r Partneriaid Darparu i arddangos meysydd y mae ganddynt gryfderau a sgiliau arbenigol a fydd o fudd i'r ddarpariaeth gyffredinol.

**5. Rheoli Perfformiad**

5.1. Mae cyfrifoldeb ar y Coleg i sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o ansawdd uchel sydd yn bodloni anghenion Manyleb y Rhaglen Dysgu yn y Gwaith ni waeth pwy sydd yn ei chyflwyno. Bydd y Coleg yn sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i adnabod a mynd i'r afael â thangyflawni, gan gynnwys:

5.1.1. Adroddiadau gwybodaeth rheolaidd gan reolwyr am bob Partner Darparu;

5.1.2. Archwiliadau cydymffurfiaeth i wirio cywirdeb a llinellau amser data;

5.1.3. Systemau effeithiol i dracio cynnydd dysgwyr;

5.1.4. Defnyddio systemau i gael gweld data byw.

5.2. Bydd pob Partner Darparu yn cael cytundeb lefel gwasanaeth yn cynnwys manylion am bob agwedd o sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth sy'n ofynnol gan gynnwys cytundeb rhannu data. Cynhelir adolygiadau ffurfiol yn rheolaidd gyda'r Partneriaid Darparu er mwyn adolygu:

5.3. Cyfraddau llwyddiant/dysgwyr heb eu hariannu/dysgwyr mewn perygl;

5.4. Perfformiad y Partner o'i gymharu â'u proffil a dyraniad cyffredinol y contract;

5.5. Boddhad dysgwyr a chyflogwyr/cwynion;

5.6. Cadw gweithwyr;

5.7. Diogelu, iechyd, diogelwch a chynaliadwyedd a chydraddoldeb ac amrywiaeth;

5.8. Materion yn codi o gyflwyno dogfennau;

5.9. Lle nodir tanberfformiad caiff cynllun gweithredu mesuredig wedi'i dargedu ei gytuno arno a'i ddogfennu fel gweithred adferol.

## 6. Cynllunio Wrth Gefn

6.1. Bydd y Coleg yn gweithio gyda'i Bartneriaid Darparu i sicrhau bod dysgwyr yn cael hyfforddiant diogel, ysbrydoledig o ansawdd uchel, gyda'r gefnogaeth sydd ei hangen yn ei lle i alluogi unigolion i gyrraedd eu nod i ddatblygu.

6.2. Pe bai Partner Darparu yn methu gwella unrhyw elfennau o'u perfformiad a ystyrir i fod yn annerbyniol neu'n annigonol, neu yn methu ag ymgymryd â hyfforddiant neu gyda'r systemau cymorth sydd yn eu lle, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i derfynu'r contract i amddiffyn y dysgwyr.

6.3. Pe bai trefniant isgontractio yn methu, bydd y Coleg yn sicrhau y bydd dysgu yn parhau ar gyfer y myfyrwyr hynny a gaiff eu heffeithio. Byddai staff dynodedig yn cysylltu â dysgwyr sydd wedi eu dadleoli a chyflogwyr i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol.

## 7. Ffioedd Rheoli

7.1. Codir ffi rheoli gan y Coleg sy'n seiliedig ar broses tryloyw ac amlwg o sut mae'r ffioedd hyn yn cael eu cyfrifo a'r gwasanaeth y gall y Partner Darparu ei ddisgwyl. Caiff y gyfradd hon ei chytuno'n flynyddol gan yr Uwch Dîm Rheoli ac o 2021 caiff ei chyhoeddi ar wefan y coleg yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (2023 / 24 =15%). Ni fydd unrhyw daliadau yn cael eu gwneud nes y bydd contract wedi'i arwyddo yn ei le.

## 8. Adborth Dysgwyr a Chyflogwyr

8.1. Mae prosesau yn eu lle i gasglu barn dysgwyr a chyflogwyr a bydd y Coleg yn gweithredu ar yr adborth hwn. Caiff holiaduron dysgwyr a chyflogwyr eu cysoni a byddant yn cynnwys darpariaeth y Partneriaid Darparu. Defnyddir data o'r holiaduron i wella perfformiad.

8.2. Mae gweithdrefn yn ei lle i ymchwilio i gwynion am Bartneriaid Darparu. Caiff ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwerthuso ei heffeithiolrwydd a bydd y Coleg yn gweithredu ar y wybodaeth i wella profiadau dysgwyr.

## 9. Adolygiad

9.1. Caiff adolygiad o effaith a manteision y polisi hwn i ddysgwyr ei gwblhau bob 2 flynedd. Caiff y ffioedd rheoli eu hadolygu yn flynyddol.